OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 No. 1229

## Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017

## RHAN A

### Cyffredinol

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "blwyddyn ariannol berthnasol" ("*relevant financial year*") yw'r flwyddyn ariannol y mae trethdalwr wedi cyflwyno hysbysiad mewn cysylltiad â hi yn unol ag erthygl 14;

mae "cyfarpar cyfathrebiadau electronig" ("*electronic communications apparatus*") yn cynnwys—

(a) cyfarpar a ddyluniwyd neu a addaswyd i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig;

(b) cyfarpar a ddyluniwyd neu a addaswyd at ddefnydd anfon neu gael cyfathrebiadau neu signalau eraill a drosglwyddir drwy gyfrwng rhwydwaith cyfathrebiadau electronig, neu sy'n cynnwys y defnydd hwnnw;

(c) llinellau;

(d) strwythurau eraill (gan gynnwys strwythurau nad ydynt ond yn rhan o adeilad) neu bethau a ddefnyddir, a ddyluniwyd neu a addaswyd i'w defnyddio mewn cysylltiad â darparu rhwydwaith cyfathrebiadau electronig; ac

(e) unrhyw offer atodol a gaiff ei feddiannu at ddiben person a drwyddedir o dan adran 8 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddiwifr 2006(**1**) neu berson y rhoddwyd iddo fynediad sbectrwm cydnabyddedig o dan adran 18 o'r Ddeddf honno, a dim ond ar gyfer hynny;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "Deddf 1988" ("*the 1988 Act*") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988;

ystyr "hereditament a eithrir" ("*excepted hereditament*") yw hereditament—

(a) a ddefnyddir ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gweithfeydd trin carthion neu gyfarpar cyfathrebiadau electronig, a dim ond ar gyfer hynny;

(b) sy'n gaban glan môr neu'n swyddfa bost;

(**1**) 2006 p. 36. Diwygiwyd adran 8 gan O.S. 2011/1210.

(**2**) Mae adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000 (p. 7) yn darparu mai ystyr "electronic communication" yw cyfathrebiad a drosglwyddir (pa un ai o un person i berson arall, o un ddyfais i ddyfais arall, neu o berson i ddyfais neu i'r gwrthwyneb)—
(a) drwy gyfrwng rhwydwaith cyfathrebiadau electronig, neu
(b) drwy gyfrwng arall ond mewn ffurf electronig.

(c) y mae naill ai baragraff (a) neu (b) o adran 43(6) o Ddeddf 1988(**3**) yn gymwys iddo (elusennau neu glybiau chwaraeon cymunedol amatur);

(d) y mae naill ai baragraff (a) neu (b) o adran 47(5B) o Ddeddf 1988(**4**) yn gymwys iddo (sefydliadau dielw);

(e) sy'n hereditament a eithrir fel y diffinnir "excepted hereditament" yn adran 47(9) o Ddeddf 1988(**5**);

(f) sy'n hereditament y Goron fel y diffinnir "Crown hereditament" yn adran 65A(4) o Ddeddf 1988(**6**);

ystyr "hereditament cymwys" ("*qualifying hereditament*") yw hereditament sy'n dod o fewn erthygl 12(1)(c) o'r Gorchymyn hwn;

ystyr "llinell" ("*line*") yw unrhyw wifren, unrhyw gebl, unrhyw diwb, unrhyw bibell neu unrhyw beth tebyg (gan gynnwys ei chasin neu ei gasin neu ei gorchudd neu ei orchudd) a ddyluniwyd neu a addaswyd i'w defnyddio neu ei ddefnyddio mewn cysylltiad â darparu unrhyw rwydwaith cyfathrebiadau electronig neu wasanaethau cyfathrebiadau electronig;

mae "llofnod" ("*signature*"), "llofnodi" ("*sign*") neu "llofnodwyd" ("*signed*"), mewn perthynas â hysbysiad a gyflwynir yn unol ag erthygl 13(3) neu 14(6) drwy gyfathrebiad electronig, yn cynnwys ymgorffori yn yr hysbysiad, neu gysylltu'n rhesymegol â'r hysbysiad, lofnod electronig, fel y diffinnir "electronic signature" yn adran 7(2) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000;

ystyr "person sydd wedi ei awdurdodi i lofnodi ar ran y trethdalwr" ("*person authorised to sign on behalf of the ratepayer*"), pan fo'r trethdalwr—

(a) yn bartneriaeth, yw partner i'r bartneriaeth honno;

(b) yn ymddiriedolaeth, yw ymddiriedolwr i'r ymddiriedolaeth honno;

(c) yn gorff corfforaethol, yw cyfarwyddwr i'r corff hwnnw, ac

mewn unrhyw achos arall, yw person sydd wedi ei awdurdodi'n briodol i lofnodi ar ran y trethdalwr;

nid yw "strwythur" ("*structure*") ond yn cynnwys adeilad os mai unig ddiben yr adeilad hwnnw yw amgáu cyfarpar cyfathrebiadau electronig arall;

ystyr "swyddfa bost" ("*post office*") yw swyddfa bost gyhoeddus o fewn yr ystyr a roddir i "public post office" gan adran 125(1) o Ddeddf Gwasanaethau Post 2000(**7**).

(**3**) Diwygiwyd adran 43(6) gan adran 64(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26), ac adran 1177 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (p. 4), a pharagraffau 206 a 207 o Ran 2 o Atodlen 1 iddi.

(**4**) Mewnosodwyd adran 47(5B) gan adran 69 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20).

(**5**) Diwygiwyd adran 47(9) gan baragraff 65 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p. 14).

(**6**) Mewnosodwyd adran 65A gan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29). Diwygiwyd is-adran (4) gan baragraff 73 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (p. 16) a chan baragraffau 180 a 181 o Atodlen 16 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (p. 13).

(**7**) 2000 p. 26. Mewnosodwyd y diffiniad o "public post office" i is-adran (1) gan baragraff 49(1) o Atodlen 12 i Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (p. 5).